# Bod yn ôl yn yr ysgol

## Arolwg disgyblion — 2020



# Helo

**Estyn ydym ni. Rydyn ni'n helpu i sicrhau bod ysgolion a cholegau y gorau y gallant fod. Rydym yn edrych ar bob ysgol, gan gynnwys eich ysgol chi, i wneud yn siŵr eich bod yn cael yr addysg orau bosibl.**

Mae'r pandemig wedi newid cymaint o bethau i bob un ohonom.

Mae Covid-19 yn feirws newydd. Gan ei fod yn newydd, mae pawb yn dal i ddysgu sut mae'n effeithio ar bobl. Mae'n golygu bod llawer o reolau newydd. Mae wedi newid sut rydyn ni'n siopa, sut rydyn ni'n gweithio, a phwy all ymweld â ni gartref. Dyna pam y cafodd lleoedd fel pyllau nofio, llyfrgelloedd ac ysgolion eu cau.

Fe wnaeth cau ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol:

- ni chafodd rhai ohonoch ymweld â'ch ysgol uwchradd newydd cyn i chi ddechrau
- roedd rhai yn ei chael hi'n hawdd dysgu gartref, tra bod eraill yn mynd yn ôl i'r ysgol y tymor hwn yn teimlo eu bod ar ei hôl hi
- cafodd arholiadau TGAU, Safon UG neu arholiadau eraill rhai ohonoch eu canslo.

Gall hyn i gyd achosi ansicrwydd neu ddryswch.

**Erbyn hyn mae ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar agor eto, mae rhai pobl yn obeithiol ynghylch bod yn ôl, mae gan eraill bryderon.**

**Rydym am wneud yn siŵr bod eich ysgol neu eich uned cyfeirio disgyblion yn eich cefnogi yn y ffyrdd cywir. Rydyn ni hefyd eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am fod yn ôl.**



## Rydym am sicrhau bod yr ysgol yn fan lle:

- Rydych chi'n teimlo'n ddiogel.
- Mae eich athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i chi siarad am eich teimladau, eich iechyd a'ch lles.
- Rydych chi'n gwybod â phwy i siarad os ydych chi'n poeni neu'n gofidio.
- Rydych chi'n cael cyfleoedd i gymdeithasu.
- Rydych chi'n cael cefnogaeth i'ch iechyd corfforol ac rydych yn gallu bod yn actif.
- Mae eich athrawon yn eich cefnogi i ymgartrefu yn eich dosbarth newydd.
- Rydych chi'n cael cymorth a chefnogaeth i ddysgu a gwneud gwaith ysgol.
- Rydych chi'n cael cefnogaeth i'ch helpu i wneud cynnydd mewn pynciau arholiad.
- Rydych chi'n cael cymorth i ddysgu a datblygu eich sgiliau Cymraeg.
- Mae pawb yn parchu'r rheolau ar gadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo a masgiau wyneb.
- Mae eich athrawon yn gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut i weithio gartref, os oes angen i chi eto.

**Rhowch wybod i ni sut rydych chi'n teimlo am fod yn ôl. Cliciwch ar y ddolen ac atebwch y cwestiynau yma:**

smartsurvey.co.uk/s/AutumnHydref2020PupilsDisgyblion

**Diolch am gymryd rhan.**

